

Michelle Morris  
Managing Director / Rheolwr Gyfarwyddwr



T: (01495) 355001 E: michelle.morris@blaenau-gwent.gov.uk

Our Ref./Ein Cyf: MM/AJW

Your Ref./Eich Cyf.

Contact:/Cysylltwch a: Michelle Morris

Annwyl Syr/Madam

**Etholiad Senedd Cymru – 6 Mai 2021**  
**Etholaeth Blaenau Gwent a Rhanbarth De Ddwyrain Cymru**

Fi yw'r Swyddog Canlyniadau Etholaeth ar gyfer Blaenau Gwent a'r Swyddog Rhanbarthol ar gyfer Rhanbarth De Ddwyrain Cymru ar gyfer yr Etholiadau i Senedd Cymru a gynhelir ar 6 Mai 2021.

**CYFLWYNIAD**

Mae pump rhanbarth yng Nghymru a chynhelir Etholiadau Senedd Cymru yr un diwrnod â'r Etholiadau ar gyfer y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu.

Bydd y Comisiwn Etholiadol yn anfon llyfryn at bob cartref yng Nghymru ddechrau mis Ebrill yn esbonio'r cyfuniad o etholiadau, gan dynnu sylw at ddyddiadau cau pwysig ar gyfer cofrestru a phleidleisio absennol, beth i'w ddisgwyl yn yr orsaf pleidleisio a hefyd yn esbonio'r gwahanol systemau pleidleisio.

Fel Swyddog Canlyniadau Etholaeth Blaenau Gwent, rwy'n gyfrifol am roi hysbysiad o'r etholiad; y gweithdrefnau enwebu; cyhoeddi datganiad personau a hysbysiad o'r bleidlais; cyfrif papurau pleidleisio yr Etholaeth a datgan y canlyniad.

Fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru, rwy'n gyfrifol am redeg yr etholiad yn gyffredinol, ac am gysylltu a chydlynu gwaith y Swyddogion Canlyniadau Etholaethol ar draws y rhanbarth. Rwyf hefyd yn gyfrifol am roi hysbysiad o'r etholiad; y gweithdrefnau enwebu; cyhoeddi'r datganiad o bersonau a'r pleidiau a enwebwyd a hysbysiad o'r bleidlais, coladu a chyfrif y pleidleisiau ar gyfer pob ymgeisydd unigol a phlaid wleidyddol; dyrannu seddi ar gyfer y rhanbarth etholiadol; datganiadau canlyniad.

**MESURAU COVID-19**

Caiff nifer o fesurau eu rhoi ar waith fydd yn gwneud i'r etholiad hwn edrych a theimlo'n wahanol. Gallwch ddisgwyl gweld llawer o'r newidiadau y daethoch yn gyfarwydd â nhw mewn misoedd diweddar mewn banciau, siopau a gofodau dan do eraill.

Mewn gorsafoedd pleidleisio ac yn y canolfannau dilysu a chyfrif, disgwylir i unigolion ddefnyddio'r hylif diheintio dwylo fydd ar gael pan fyddant yn dod i mewn ac yn gadael ac yn gwisgo gorchudd wyneb bob amser (os nad oes ganddynt eithriad).

Bydd mesurau pellter corfforol/cymdeithasol eraill ar waith tebyg i systemau un-ffordd, rheoli ciwiau a defnyddio sgriniau diogelwch clir i sicrhau gwarchod a diogelwch yr holl randdeiliaid sy'n ymwneud â phroses yr etholiad.

Caiff yr holl drefniadau eu hadolygu a gallant newid pe byddai amgylchiadau'n newid.

## **ADNODDAU**

Mae'r holl ganllawiau a ffurflenni (yn cynnwys papurau enwebu) ar gael ar wefan y Comisiwn Etholiadol:

<https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneq-pleidleisiwr/ymgeisydd-neu-asiant/ymgeiswyr-ac-asiantau-yn-etholiadau-senedd-cymru>

Mae'r canllawiau dilynol ar gael.

**Rhan 1 – Allwch chi sefyll mewn etholiad?**

**Rhan 2a – Sefyll yn yr etholiad etholaethol**

**Rhan 2b – Sefyll yn yr etholiad rhanbarthol**

**Rhan 3 – Gwariant a rhoddion**

**Rhan 4 – Yr ymgyrch**

**Rhan 5 – Eich hawl i fynychu digwyddiadau etholiadol allweddol**

**Rhan 6 – Ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau**

Argymhellir eich bod yn darllen pob rhan o'r canllawiau.

## **CYFARFOD GWYBODAETH I YMGEISWYR / ASIANTAU ETHOLIAD**

Cynhelir sesiwn wybodaeth i ymgeiswyr ac asiantau ddydd Mercher 17 Mawrth am 16.00 ar Microsoft Teams. Bydd y sesiwn yn rhoi trosolwg i ymgeiswyr ac asiantau ac yn rhoi gwybodaeth hanfodol yn cynnwys y drefn enwebu, gwybodaeth am bleidleisio, y broses ddilysu a chyfrif, gwariant ymgeiswyr a threuliau etholiad. Os hoffech fynychu'r sesiwn wybodaeth, cysylltwch ag Audra Williams, [audra.williams@blaenau-gwent.gov.uk](mailto:audra.williams@blaenau-gwent.gov.uk) Ffôn: 01495 355087 os gwelwch yn dda.

## **HYSBYSIAD ETHOLIAD / CARDIAU PLEIDLEISIO**

Cyhoeddir yr Hysbysiad Etholiad ar 22 Mawrth 2021.

## **CYFLWYNO PAPURAU ENWEBU**

Mae pecynnau enwebu ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Comisiwn Etholiadol neu gallwch gysylltu â Gwasanaethau Etholiadol. **Mae'n rhaid cyflwyno papurau enwebu yn swyddfa'r Swyddog Canlyniadau Etholaeth/Rhanbarthol yn y Swyddfeydd Cyffredinol, Heol Gwaith Dur, Glynebwy NP23 6DN rhwng 9.00 a.m. a 5.00 p.m. o'r gloch ar ddyddiau gwaith arferol.**

Byddaf ar gael i dderbyn papurau enwebu yn dilyn cyhoeddi'r Hysbysiad Etholiad. Cewch gynnig dyddiadau ac amserau a osodwyd ymlaen llaw i ddod i mewn a chyflwyno eich papurau enwebu a bydd angen i chi wneud apwyntiad ar gyfer un o'r amseroedd hyn. Cysylltwch ag Audra Williams ar 01495 355087 i wneud apwyntiad os gwelwch yn dda. **Ni fedrir derbyn enwebiadau ar ôl 4.00 p.m. ddydd Iau 8 Ebrill.**

**Bydd angen i chi ddilyn canllawiau iechyd cyhoeddus a gofynnir i chi wisgo mwgwd pan ddewch i mewn i'r adeilad ac yn ystod eich apwyntiad enwebu (os nad oes gennych eithriad).**

Caiff ymgeiswyr ac asiantau etholiad eu hannog i gyflwyno eu papurau enwebu cyn gynted ag sydd modd i ganiatáu prosesu a gwirio. Ni fedrir dal y Swyddog Canlyniadau Etholaeth/Rhanbarthol yn gyfrifol am unrhyw enwebiadau hwyr/anghywir.

Gallwch ofyn am i'ch papurau enwebu gael eu harchwilio'n anffurfiol cyn eu cyflwyno mewn gwirionedd. **Y peth gorau fyddai anfon copi wedi'i sganio drwy e-bost at [audra.williams@blaenau-gwent.gov.uk](mailto:audra.williams@blaenau-gwent.gov.uk)**

Mae'n **rhaid** anfon ernes o £500 gyda'r enwebiad. Byddaf yn derbyn y dulliau talu dilynol:-

Arian parod

BACS

Dylid gwneud taliadau BACS i'r cyfrif dilynol: -

Banc: Banc Barclays Plc

Cod Didoli: 20-56-64

Rhif y Cyfrif: 60363324

Enw'r Cyfrif: Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Cyfeirnod: Nodwch enw eich plaid a/neu ymgeisydd os gwelwch yn dda.

Os ydych yn talu eich ernes yn electronig mae'n rhaid derbyn yr ernes o £500 cyn i chi gyflwyno eich papurau enwebu, dylech wirio drwy ffonio Audra Williams ar 01495 355087 y cafodd y taliad ei dderbyn cyn i chi wneud apwyntiad i gyflwyno eich papurau enwebu.

Ni fedrir derbyn sieciau personol.

## **CYHOEDDI DATGANIAD Y PERSONAU A ENWEBWYD A HYSBYSIAD Y BLEIDLAIS**

Caiff y datganiad cyfun o bersonau a enwebwyd a'r hysbysiad eu cyhoeddi erbyn 4.00pm. ddydd Gwener 9 Ebrill 2021 ar gyfer y ddau etholiad.

## **COFRESTR ETHOLWYR**

Mae gan bob ymgeisydd Etholaethol ac ymgeisydd Rhanbarthol unigol hawl i un copi o'r Gofrestr. Gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol ar gyfer pob Etholaeth gyflenwi cofrestr ar gyfer eu hardal i chi un ai mewn dull data neu brint. Cysylltwch â nhw'n uniongyrchol os dymunwch dderbyn copi os gwelwch yn dda. Caiff y rhifau ffôn ar gyfer pob Swyddog Cofrestru Etholiadol eu rhestru ar yr Hysbysiad Etholiad. Mae'n rhaid i ymgeiswyr wneud cais ysgrifenedig am gopi o'r gofrestr.

Cyn gynted ag y derbynnir y cais ysgrifenedig a'ch bod wedi dod yn ymgeisydd byddwch yn derbyn y dilynol:-

- Y gofrestr ar gyfer enwebiadau (sef y gofrestr sydd mewn grym ar 1 Mawrth 2021)
- Unrhyw hysbysiad etholiad o newid a gyhoeddwyd

Dylid nodi mai'r dyddiad cynharaf y gall ymgeisydd dderbyn y gofrestr yw'r dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad etholiad h.y. 29 Mawrth 2021.

Fodd bynnag, mae gan bleidiau gwleidyddol hawl i gael a defnyddio'r gofrestr etholiadol ar unrhyw amser.

## **CYHOEDDI CARDIAU PLEIDLEISIO A PHLEIDLEISIAU DRWY'R POST**

Caiff Cardiau Pleidleisio eu postio ar draws rhanbarth De Ddwyrain Cymru o ddiwedd mis Mawrth.

Caiff Cardiau Pleidleisio drwy Ddirprwy eu cyhoeddi 1-2 wythnos cyn yr etholiad.

Bwriedir cyhoeddi Pleidleisiau Drwy'r Post ar draws rhanbarth De Ddwyrain Cymru naill ai ddydd Llun 19 neu ddydd Mawrth 20 Ebrill 2021.

Gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol ar gyfer pob Sir neu Fwrdeistref Sirol gyflenwi rhestr o bleidleiswyr drwy'r post a phleidleiswyr drwy ddirprwy i chi. Gofynnir i chi gysylltu â nhw'n uniongyrchol os dymunwch dderbyn copi. Caiff rhifau ffôn pob Swyddfa Cofrestru Etholiadol eu rhestru ar yr Hysbysiad Etholiad.

## **AGOR PLEIDLEISIAU DRWY'R POST**

Pe dymunech benodi asiant i fynychu unrhyw un o sesiynau agor pleidleisiau drwy'r post a gynhelir ar draws rhanbarth De Ddwyrain Cymru, mae ffurflenni apwyntiad ar gael ar wefan y Comisiwn Etholiadol ynghyd â chanllawiau. Dylech gysylltu â phob Swyddog Canlyniadau Etholaethol unigol i ganfod pryd y byddant yn agor pleidleisiau drwy'r post ar gyfer eu Hetholaeth. Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol roi 48 awr o hysbysiad i ymgeiswyr o pryd a ble y cynhelir y sesiynau.

Dylech nodi y caiff y papurau pleidleisio a agorir eu dilysu wyneb ar i waered ar y cam hwn ac felly ni fydd modd i chi ganfod unrhyw batrwm pleidleisio drwy arsylwi.

Ar gyfer Etholaeth Blaenau Gwent, bydd manylion llawn sesiynau agor pleidleisiau post yn dilyn ond rwy'n bwriadu gweithredu proses dau gam unwaith eto. Bydd Cam 1 yn cynnwys agor yr amlenni allanol a gwirio dynodwyr personol etholwyr a cham 2 fydd pan dynnir y papurau pleidleisio (wyneb ar i wared) o amlenni'r papurau pleidleisio. Cynhelir y broses hon yn y Swyddfeydd Cyffredinol, Heol Gwaith Dur, Glynebwy NP23 6DN.

## **CYNGOR AR GYHOEDDUSRWYDD YMGYRCH**

Mae nifer o gyfyngiadau dan gyfraith etholiadol ar ddeunydd ymgyrch. Mae'n rhaid i ddeunydd ymgyrch etholiadol gynnwys argraffnod sy'n rhaid iddo gynnwys enw a chyfeiriad yr argraffwr a'r hyrwyddwr); rhaid iddo beidio edrych yn debyg i gerdyn pleidleisio; a rhaid iddo beidio cynnwys datganiad anwir am gymeriad neu ymddygiad personol ymgeisydd arall.

Dylech gynnwys argraffnod ar ddeunydd print, gwefannau a phost electronig. Edrychwch ar Ganllawiau'r Comisiwn Etholiadol Rhan 4 – Yr Ymgyrch. **I osgoi unrhyw gwynion, argymhellir yn gryf eich bod yn darllen ac yn dilyn y canllawiau hyn.**

## **CYFRYNGAU CYMDEITHASOL**

Bydd hyn yn rhan bwysig o'r ymgyrch ond dylech gadw mewn cof bod y cyfyngiadau a datganiadau anwir am gymeriad neu ymddygiad perthnasol mewn grym ar gyfer datganiadau a wnaed drwy'r cyfrwng hwn.

## **GOSOD POSTERI YN ANGHYFREITHLON / ARDDANGOS HYSBYSIADAU**

Mae gosod posteri yn anghyfreithlon yn bwynt cynnen cyffredin rhwng ymgeiswyr mewn etholiadau. Caiff ymgeiswyr ac asiantau eu hatgoffa ei bod yn drosedd dan y Deddfau Cynllunio Gwlad a Thref i osod posteri yn anghyfreithlon, ac mae hefyd yn anghyfreithlon i ddifwyno arwyddion ffyrdd sy'n eiddo unrhyw Awdurdod Priffyrdd. Caiff unrhyw arwyddion ffordd a gaiff eu difwyno eu glanhau a bydd yr Awdurdod Priffyrdd perthnasol yn codi tâl am unrhyw gostau cysylltiedig. Cyfeiriwch at Ganllawiau'r Comisiwn Etholiadol Rhif 4 – Yr Ymgyrch os gwelwch yn dda. I osgoi unrhyw gwynion, argymhellir yn gryf eich bod yn darllen ac yn dilyn y canllawiau hyn.

## **Y BLEIDLAIS**

**Cynhelir y bleidlais ar gyfer yr etholiad hwn rhwng 7:00 a.m. a 10.00 p.m. ddydd Iau 6 Mai 2021.**

Bydd y papur pleidleisio Rhanbarthol yn lliw gwyn a bydd papur pleidleisio Etholaeth Blaenau Gwent yn lliw lelog.

## **YMGYRCHU AR Y DIWRNOD PLEIDLEISIO**

Ni chaniateir ymgyrchu o fewn gorsaf bleidleisio neu safle pleidleisio. Ni ddylai unrhyw gerbydau gael eu parcio am gyfnod estynedig ar gyfer dibenion ymgyrchu, er enghraifft yn dangos deunyddiau etholiad neu'n defnyddio cynn siarad, yn union tu allan i fynedfeydd neu o fewn pellter rhesymol o'r fynedfa. Gall fod angen i geir a ddefnyddir mewn ymgyrchoedd a ddefnyddir hefyd i gludo pleidleiswyr aros am y pleidleisiwr tra'u bod yn yr orsaf bleidleisio ond ni ddylai hyn fod am gyfnod estynedig. Gweler Canllawiau'r Comisiwn Etholiadol Rhan 4 – Yr Ymgyrch.

## **RHOI ADRODDIAD AM HONIADAU O GAMWEITHREDU ETHOLIADOL**

Os oes gennych reswm dros gredu y cyflawnwyd trosedd cysylltiedig â'r etholiad, dylech yn gyntaf oll godi'r mater gyda'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol. Efallai y gallant esbonio p'un ai a gyflawnwyd trosedd cysylltiedig â'r etholiad ai peidio a'i gyfeirio at yr Heddlu os oes angen neu roi manylion y cyswllt heddlu ar gyfer yr

ardal fel y gallwch roi adroddiad am eich honiad. Os ydych eisiau i'r heddlu ymchwilio eich pryderon yn ffurfiol, dylech fod yn barod i roi datganiad iddynt a phrofi eich honiad. Dynodwyd Un Man Cyswllt ar gyfer etholiadau i bob heddlu.

## Y DILYSU/CYFRIF

Rwy'n argymhell eich bod yn darllen canllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer ymgeiswyr ac asiantau Rhan 5 – Eich hawl i fynychu digwyddiadau etholiadol allweddol. Mae Tudalennau 13 – 20 yn esbonio'r broses ddilysu/cyfrif.

### Dydd Gwener 7 Mai 2021

Bydd y dilysiad ar gyfer pob etholaeth yn dechrau yn ddim hwyrach na 10am ddydd Gwener 7 Mai. Gan fod hwn yn etholiad cyfun, caiff y papurau pleidleisio ar gyfer Etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd eu dilysu yr un pryd. Ar ôl cwblhau'r dilysiad, bydd y Cyfrif ar gyfer Aelod o'r Senedd ar gyfer yr etholaeth yn dechrau i'w ddilyn gan y Cyfrif ar gyfer Aelodau o'r Senedd ar gyfer y rhanbarth.

Caiff y cyfrif canolog, dyrannu seddi a datganiad canlyniad ar gyfer yr Etholiad Rhanbarthol ei wneud gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol. Byddaf yn rhoi mwy o wybodaeth i chi am fynychu'r cyfrif canolog a datgan y canlyniad maes o law. Bydd niferoedd yn gyfyngedig iawn ar yr achlysur hwn.

**Rhoddir gwybodaeth fanwl a bydd angen i chi ddilyn canllawiau iechyd cyhoeddus a gofynnir i chi wisgo masg pan ewch i mewn i'r lleoliad ac yn ystod y digwyddiad (os nad oes gennych eithriad).**

Os dymunwch fynychu dilysiad / cyfrif yn un o'r awdurdodau lleol dilynol, gofynnir i chi gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol perthnasol. Gall y Swyddog Canlyniadau Etholaethol hefyd ysgrifennu'n uniongyrchol atoch gyda'u trefniadau lleol:-

Blaenau Gwent	-	01495 355086
Caerffili	-	01443 864405
Casnewydd Dwyrain	-	01633 210744
Casnewydd Gorllewin	-	01633 210744
Islwyn	-	01443 864405
Merthyr Tudful a Rhymni	-	01685 725202
Sir Fynwy	-	01633 644212
Torfaen	-	01495 766074

## TREULIAU ETHOLIADOL – GWARIANT A RHODDION

Mae'n rhaid i ymgeiswyr a'u hasiantau ddilyn rheolau penodol am faint y gallant ei wario, gan bwy y gallant dderbyn rhoddion, a'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei adrodd ar ôl yr etholiad. Gofynnir i chi ddarllen canllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer ymgeiswyr ac asiantau Rhan 3 – Gwariant a rhoddion.

Dylid cyfeirio at y canllawiau sy'n nodi'r terfynau gwariant ar gyfer ymgeiswyr Etholaethol a Rhanbarthol. Gallwch lawrlwytho ffurflenni treuliau etholiadol o wefan y Comisiwn Etholiadol yn <https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/ymgeisydd-neu-asiant/ymgeiswyr-ac-asiantau-yn-etholiadau-senedd-cymru>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am wariant a rhoddion, dylech gysylltu â'r Comisiwn Etholiadol ar 0333 103 1929 neu [infowales@electoralcommission.org.uk](mailto:infowales@electoralcommission.org.uk)

Y dyddiad olaf ar gyfer dychwelyd treuliau etholiadol yw 11 Mehefin 2021 (os caiff y canlyniad ei gyhoeddi ar 7 Mai 2021).

Yn gywir

*M. Morris*

Michelle Morris  
Rheolwr Gyfarwyddwr  
Swyddog Canlyniadau Etholaethol a Rhanbarthol

The General Offices  
Steelworks Road  
Ebbw Vale  
NP23 6DN

Y Swyddfeydd Cyffredinol  
Heol Gwaith Dur  
Glyn Ebwy  
NP23 6DN